Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn cynnal ymchwiliad i **ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau**.

**Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn**:

- Pa wersi y gellir eu dysgu o'r fasnachfraint bresennol?
- Pa flaenoriaethau y gellir eu nodi i sicrhau bod gwasanaethau i deithwyr rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i deithwyr o 2018 ymlaen?
- Sut y gall gwasanaethau ar ôl 2018 sicrhau cysylltedd a gwerth am arian i deithwyr a lleihau baich ar y trethdalwyr?

**Y materion allweddol**

Mae'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried fel rhan o'r cylch gwaith hwn yn cynnwys:

- A yw'r fasnachfraint bresennol yn diwallu anghenion teithwyr a pha wersi y gellir eu dysgu ohoni?
- Sut y dylid cynnwys teithwyr yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r fasnachfraint?
- Sut y dylid cynnwys cymunedau a llywodraeth leol / Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol? A ellid eu cynnwys yn y gwaith o bennu'r fasnachfraint neu hyd yn oed ddarparu gwasanaethau?
- Pa fodel rheoli y dylid ei fabwysiadu, gan gynnwys cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer masnachfraint ddi-ddifidend?
- Sut y dylai manyleb y fasnachfraint wella profiad teithwyr, gan gynnwys materion fel hyd y fasnachfraint, targedau / cymhellion a'r safonau gwasanaeth craidd y dylid eu cynnwys?
- Pa lwybrau, yn arbennig llwybrau trawsffiniol, y dylid eu cynnwys?
- Pa gerbydau y bydd eu hangen ar gyfer y fasnachfraint newydd? Pa ffactorau y mae angen eu hystyried a sut y dylid caffael y cerbydau hyn? A fydd angen cerbydau newydd?
- A oes angen rheilffyrdd ychwanegol, gwella rheilffyrdd presennol, gorsafoedd newydd neu seilwaith arall?
- A oes modd i'r fasnachfraint gefnogi gwell perthynas rhwng Network Rail a gweithredwr y fasnachfraint a pha fanteision posibl a ddaw yn sgil hyn?

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau fel ei gilydd.

Yn gyffredinol, gofynnwn i ymatebion gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig oherwydd mae'n arfer gennym gyhoeddi tystiolaeth ar ein gwefan er mwyn sicrhau ei bod yn rhan o gofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf fideo.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth llafar yn ystod tymor yr hydref.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i enterprise.committee@wales.gov.uk

Neu, gallwch ysgrifennu at:

Dr Siân Phipps, Clerc y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai'r dystiolaeth ein cyrraedd erbyn **Dydd Gwener 13 Medi 2013** ac ni ddylai fod yn hwy na phedair tudalen A4, dylai'r paragraffau fod wedi'u rhifo ac mewn fformat word. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.